Brechiad y ffliw i blant

Atebion i rai cwestiynau cyffredin

Pam mae plant angen brechiad y ffliw? Gall pobl o unrhyw oedran gael y ffliw, ond plant sydd â'r gyfradd heintio uchaf a gall y ffliw fod yn ddifrifol iddyn nhw. Achosir y ffliw gan firysau ac mae'n lledaenu'n hawdd. Mae'n gallu achosi tymheredd uchel, cyhyrau poenus, cur pen, blinder, trwyn wedi cau, peswch a dolur gwddw, sy'n para hyd at wythnos. Mae plant sy'n cael y ffliw yn teimlo'n sâl yn aml, ac i rai mae'n gallu achosi salwch difrifol. Gall y cymhlethdodau gynnwys broncitis, niwmonia a haint yn y clustiau. Mae rhai plant yn mynd mor sâl fel bod rhaid mynd â nhw i'r ysbyty.

Mae brechiad y ffliw yn helpu i warchod plant rhag y ffliw a hefyd yn helpu i atal y firws rhag lledaenu i deulu a ffrindiau. Mae'r warchodaeth yn dechrau tua phythefnos ar ôl cael y brechiad. Mae rhai pobl yn cael y ffliw ar ôl cael y brechiad hyd yn oed, ond nid yw cyn waethed fel salwch. Nid yw brechiad y ffliw yn gwarchod rhag annwyd neu salwch arall y gaeaf.

A fydd brechiad y ffliw yn achosi'r ffliw? Na fydd, ni fydd brechiad y ffliw yn achosi'r ffliw.

Sut mae brechiad y ffliw yn cael ei roi? Mae'r rhan fwyaf o blant yn cael brechiad y ffliw drwy chwistrell trwyn. Mae'n cael ei roi fel dafnau mân i fyny'r trwyn ac mae'n rhoi gwell gwarchodaeth na phigiad brechiad y ffliw i blant.

Oes unrhyw sgil effeithiau o frechiad y ffliw? Mae brechiadau'r ffliw yn ddiogel iawn. Efallai y bydd y chwistrell trwyn yn gwneud i drwyn redeg neu gau. Mae rhai plant yn cael ychydig o dymheredd, yn teimlo wedi blino, yn cael cur pen, llai o archwaeth bwyd neu mae eu cyhyrau'n boenus am ddiwrnod neu ddau ar ôl cael brechiad y ffliw. Mae pigiad y ffliw yn gallu achosi braich boenus.

Os oes gan fy mhlentyn beswch, annwyd neu fân salwch arall, a ddylwn i oedi gyda rhoi ei frechiad? Na, peidiwch ag oedi gyda rhoi brechiad y ffliw oherwydd mân salwch.

Oes unrhyw blant na ddylai gael brechiad y ffliw drwy chwistrell trwyn? Mae'r rhan fwyaf o blant yn gallu cael y brechiad drwy chwistrell trwyn. Nid ydym yn ei argymell i nifer bach iawn o blant sydd:

- wedi cael adwaith alergaidd difrifol i'r brechiad neu unrhyw ran ohono;
- yn derbyn triniaeth aspirin tymor hir (salisylad);
- wedi gorfod cael gofal dwys yn dilyn adwaith alergaidd difrifol i wyau neu gynhyrchion wyau;
- wedi cael steroids drwy'r geg yn ystod yr 14 diwrnod diwethaf;
- â brest yn gwichian ar ddiwrnod y brechiad neu yn ystod y tridiau blaenorol;
- wedi cynyddu eu defnydd o'u mewnanadlydd asthma yn ystod y tridiau blaenorol;
- â chyflwr neu'n cael triniaeth sy'n gwanio eu system imiwnedd; neu
- mewn cysylltiad agos â rhywun sydd â system imiwnedd wan ac angen cael ei ynysu (er enghraifft, ar ôl trawsblaniad mêr yr esgyrn).

Os nad yw plentyn yn gallu cael y chwistrell trwyn am un o'r rhesymau hyn, bydd yn cael cynnig pigiad y ffliw yn ei le.

Ydi'r brechiad drwy chwistrell trwyn yn cynnwys gelatin? Ydi, mae'r brechiad drwy chwistrell trwyn yn cynnwys olion o gelatin hynod bur (gelatin moch) sy'n cael ei ddefnyddio mewn amrywiaeth o feddyginiaethau hanfodol hefyd. Am restr lawn o gynhwysion y brechiad, ewch i'r wefan: www.medicines.org.uk/emc/ a theipio 'Fluenz Tetra' yn y bocs chwilio. Y brechiad chwistrell trwyn sydd orau i blant, ond gellir gofyn am bigiad brechiad y ffliw heb gelatin yn eu meddygfa.

Pa mor aml mae fy mhlentyn i angen brechiad y ffliw? Bydd arno angen brechiad bob blwyddyn er mwyn cael y warchodaeth orau. Gall firysau'r ffliw newid o flwyddyn i flwyddyn ac felly mae'r brechiad yn cael ei newid i gyfateb iddyn nhw.

Ble mae cael mwy o wybodaeth? Ewch i icc.gig.cymru/brechlynffliw

© 2021 Iechyd Cyhoeddus Cymru

Flu vaccination for children

Answers to some commonly asked questions

Why do children need a flu vaccine? People of any age can get flu, but children have the highest rate of infection and flu can be serious for them. Flu is caused by viruses and spreads easily. It can cause fever, aching muscles, headaches, tiredness, a blocked nose, cough and sore throat, lasting up to a week. Children who get flu often feel very unwell, and for some it can cause serious illness. Complications can include bronchitis, pneumonia and ear infections. Some children get so ill they need to be admitted to hospital.

Flu vaccine helps protect children from flu and also helps stop the virus spreading to family and friends. Protection starts around two weeks after having the vaccine. Some people get flu even after having the vaccine, but this is then often a milder illness. Flu vaccines do not protect against colds or other winter illnesses.

Will the flu vaccine cause flu? No, the flu vaccine will not cause flu.

How is the flu vaccine given? For most children the flu vaccine is a nasal spray. This is given as a fine mist up the nose and gives children better protection than a flu vaccine injection.

Are there any side effects from a flu vaccine? Flu vaccines are very safe. The nasal spray may cause a runny or blocked nose. Some children get a slight temperature, feel tired, have a headache, a reduced appetite or aching muscles for a day or two after having a flu vaccine. The flu injection can cause a sore arm.

If my child has a cough, cold or other minor illness should I delay their flu vaccination? No, do not delay a flu vaccination because of a minor illness.

Are there any children who shouldn't have the nasal spray vaccine? Most children can have the nasal spray vaccine. We do not recommend it for the very small number of children who:

- have had a serious allergic reaction to the vaccine or any part of it;
- are on long-term aspirin (salicylate) treatment;
- have needed intensive care following a severe allergic reaction to eggs or egg products;
- have had oral steroids in the past 14 days;
- have a wheezy chest on the day of the vaccination or in the previous three days;
- have increased the use of their asthma inhaler in the last three days;
- have a condition or treatment that weakens their immune system;or
- are in close contact with someone who has a very weakened immune system and needs to be isolated (for example, after a bone marrow transplant).

If a child cannot have the nasal spray because of one of these reasons, they will be offered a flu vaccine injection instead.

Does the nasal spray vaccine contain gelatine? Yes, the nasal spray vaccine contains traces of highly purified gelatine (porcine gelatine) which is also used in a range of essential medicines. For a full list of the vaccine ingredients, visit this website: www.medicines.org.uk/emc/ and enter 'Fluenz Tetra' into the search box. The nasal spray vaccine is best for children, but an alternative gelatine-free flu vaccine injection can be requested at their GP surgery.

How often does my child need a flu vaccine? They will need the vaccine every year to get the best protection. Flu viruses can change each year, so the vaccine is changed to match them.

Where can I get more information? Visit phw.nhs.wales/fluvaccine

©Public Health Wales